

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Ddinbych

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Sir Ddinbych i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Sir Ddinbych bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Ddinbych 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Gweledigaeth Sir Ddinbych yw sicrhau bod "llyfrgelloedd yn ganolog i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu – mannau niwtral, dibynadwy lle mae croeso i bawb beth bynnag fo'u hoedran, eu cefndir neu eu hamgylchiadau ariannol". Ar y cyfan mae Sir Ddinbych wedi cynnal ei berfformiad drwy gydol y chweched fframwaith ac mae ganddo ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant. Er y bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y defnyddwyr, gellir gweld yn glir bwysigrwydd cynyddol yr adnoddau digidol a gynigir gan Sir Ddinbych. At ei gilydd mae lefelau staffio wedi cael eu cynnal, er bod y gwasanaeth yn nodi y bydd pwysau parhaus ar y gyllideb yn effeithio ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Dylai datblygu'r strategaeth wirfoddoli a lanswyd yn 2019 barhau i gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y gwasanaeth. Mae'n debygol y bydd rhagor o bwysau ar y gyllideb yn y dyfodol agos, ond dylai'r bwriad i ganolbwyntio ar ddatblygu staff alluogi llyfrgelloedd Sir Ddinbych i barhau i fod wrth wraidd eu cymunedau a pharhau i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol.

- Cynhaliwyd arolwg plant yn Chwefror/Mawrth 2020. Mae'r sgôr allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 7-16 wedi cynyddu, ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Er bod y ffigurau ar gyfer sawl agwedd ar ddefnyddio llyfrgelloedd wedi gostwng ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith, gellir priodoli hyn yn rhannol i effaith Covid-19. Mae Sir Ddinbych yn parhau i gofnodi perfformiad uwch na'r cyfartaledd fesul pen o'r boblogaeth yn y meysydd hyn, ac mae'n parhau'n uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 153% er 2017/18.
- Er bod gostyngiad bach wedi bod yn y gyllideb ddeunyddiau yn 2019/20, mae'r gyllideb ddeunyddiau 9.5% yn uwch na blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith.
- Mae Sir Ddinbych yn cyflawni'r targed ar gyfer darpariaeth Gymraeg ac mae'n uwch na phob gwasanaeth arall yng Nghymru o ran benthyciadau fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.
- Ni welwyd newid sylweddol o ran staffio er 2018/19. At ei gilydd, mae'r ffigurau'n parhau yr un fath ag a nodwyd ym mlwyddyn gyntaf y fframwaith. Mae'r targedau ar gyfer staffio (DA 13) yn cael eu cyflawni'n rhannol.

- Ni welwyd newid sylweddol i'r oriau agor er 2018/19. At ei gilydd, mae'r ffigurau yr un fath ag a nodwyd ym mlwyddyn gyntaf y fframwaith ac mae'r targed yn cael ei gyflawni.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Ddinbych yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae cysylltiadau â phartneriaid iechyd a llesiant wedi'u cryfhau, ac mae Sir Ddinbych yn derbyn cyllid gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i godi ymwybyddiaeth o lwyddiant y cynllun llwyddiannus Darllen yn Well a'i wneud yn rhan o'r gwasanaeth gofal sylfaenol. Mae gan y gwasanaeth ymrwymiad parhaus i sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at y ffynonellau gwybodaeth y mae arnynt eu hangen, ac mae system gyflawni ranbarthol wedi'i datblygu er mwyn galluogi trefniadau benthyca mwy effeithiol rhwng llyfrgelloedd yng ngogledd Cymru.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Sir Ddinbych wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newid arwyddocaol er 2017/18.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Ddinbych ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018 a'i arolwg plant yn Chwefror/Mawrth 2020 ar bapur ac ar-lein. Mae canran y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a dod i wybod pethau wedi gwella ers yr arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn y pumed fframwaith.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	87%	16/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	78%	=16/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Ddinbych bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Partneriaeth gyflogaeth – Partneriaeth Sir Ddinbych â Sir Ddinbych yn Gweithio. Tynnir sylw at y bartneriaeth agos â *Sir Ddinbych yn Gweithio*. Mae mentoriaid o'r sefydliad hwn yn cyfarfod unigolion sy'n cymryd rhan yn y llyfrgell. Tynnir sylw at werth y llyfrgell fel lle i oedolyn ifanc. Llwyddodd y llyfrgell i ddarparu amgylchedd diogel a chyfeillgar i'r unigolyn hwn, amgylchedd na wyddai ddim amdano cyn cyfarfod ei fentor.
- Gwirfoddoli – Strategaeth wirfoddoli llyfrgelloedd Sir Ddinbych. Nod y strategaeth yw cynyddu a gwella cyfleoedd gwirfoddoli i bobl mewn llyfrgelloedd. I lawer o bobl, mae gwirfoddoli'n gyfle i wneud cyfraniad i'r gymuned leol, ond mae gwirfoddolwyr hefyd yn galluogi'r llyfrgell i fod yn fwy ymatebol a hyblyg.
- Lle Diogel – Mae staff llyfrgell wedi cefnogi nifer o wahanol genedlaethau yn yr un teulu i ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eu diddordebau a'u gweithgareddau hamdden. Pwysleisir y rôl bwysig y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae ym mywydau eu cymunedau, a thrwy hyn, rôl llyfrgellwyr yn helpu i lywio pobl drwy fyd gwybodaeth.
- Ynysigrwydd cymdeithasol – Effaith clwb crefftau yn y llyfrgell ar un unigolyn. I un unigolyn sy'n newydd i'r ardal, mae'r grŵp crefftau yn y llyfrgell wedi bod yn achubiaeth. Erbyn hyn mae ganddi rwydwaith cefnogi na fyddai'n bodoli oni bai am y fenter hon. Mae hyn wedi arwain at wella ei llesiant.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn dal i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell.

Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Ddinbych ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	55%	17/18	25%	76%	94%	55%
c) iechyd a lles	44%	18/18	38%	69%	96%	44%
d) lle diogel a chroesawgar	93%	17/17	90%	96%	100%	93%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	82%	16/18	78%	91%	99%	82%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	96%	15/18	88%	97%	100%	96%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	65%	17/17	65%	85%	99%	65%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	94%	16/18	85%	96%	100%	94%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=7/19	8.0	9.1	9.5	dd/b
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,031*	9/22	2429	3987	6874	4,216
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,383	5/22	239	909	2131	1,318
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	186	5/22	78	145	244	192
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	1468	1/22	311	680	1468	1424
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	10	8/22	4	9	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	21%	15/22	14%	30%	64%	10
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£12,901	9/22	£7,260	£12,368	£23,333	£9715
b) % ar staff	60%	10/22	48%	61%	76%	69%
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	=15/22	5%	13%	22%	20%
% ar offer ac adeiladau	5%	=11/22	0%	8%	28%	2%
% ar gostau gweithredol eraill	25%	=8/22	1%	18%	35%	9%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£590	9/22	£0	£1,567	£13,027	£486
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Sir Ddinbych ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018. Parhaodd y ffigurau ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid yn uchel. Cynhaliwyd arolwg plant yn Chwefror/Mawrth 2020 ar bapur ac ar-lein. Mae'r sgôr allan o ddeg a roddwyd gan

ddefnyddwyr 7-16 wedi cynyddu, ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae pob llyfrgell sefydlog yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol ac iechyd a llesiant, ac mae gan bob llyfrgell set lawn o'r adnoddau Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer Iechyd Meddwl.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Sir Ddinbych yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac ni fu unrhyw newidiadau ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Er bod ffigurau ar gyfer sawl agwedd ar ddefnyddio llyfrgelloedd wedi gostwng ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith gellir priodoli hyn yn rhannol i effaith Covid-19. Mae Sir Ddinbych yn parhau i gofnodi perfformiad uwch na'r cyfartaledd fesul pen o'r boblogaeth yn y meysydd hyn ac mae'n parhau'n uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Fel y rhan fwyaf o wasanaethau yng Nghymru, mae nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 153% er 2017/18. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod hyn bellach yn 11.25% o gyfanswm y benthyciadau. Gwelwyd cynnydd o 5.2% hefyd yn nifer yr ymweliadau rhithiol â gwefan y llyfrgell er 2017/18.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyllideb ddeunyddiau yn 2019/20, ond mae'r gyllideb ddeunyddiau 9.5% yn uwch na blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Er hyn, ni chyflawnir yr un o'r targedau o dan DA 9, ac mae'r gwasanaeth yn nodi bod y gyllideb hon wedi cael ei heffeithio gan y gwariant ar gaffael y setiau llawn o'r teitlau Darllen yn Well yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob llyfrgell. Mae Sir Ddinbych yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad yw wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Er gwaethaf gostyngiad bach mewn gwariant ar adnoddau plant mae'r gwasanaeth yn parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau llyfrau plant fesul pen o'r boblogaeth. Mae'r gwasanaeth yn cofnodi'r lefel uchaf o fenthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, ac mae pob un o'r gofynion ar gyfer DA 10 yn cael ei gyflawni. Mae'r ddarpariaeth gyfrifiaduron personol wedi aros yr un fath er 2018/19, â'r defnydd yn gostwng ychydig, fel yn y rhan fwyaf o Gymru, wrth i fwy o bobl ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain a Wi-Fi y llyfrgell. Mae Sir Ddinbych wedi parhau i gyflawni'r targed ar gyfer perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Ni welwyd newid sylweddol o ran staffio er 2018/19. At ei gilydd, mae'r ffigurau'n parhau yr un fath ag a nodwyd ym mlwyddyn gyntaf y fframwaith. Mae'r targedau ar gyfer staffio (DA 13) yn cael eu cyflawni'n rhannol. Mae lefelau staffio Sir Ddinbych ychydig yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn nodi mai dim ond 50% o'r gwir lefelau staffio sy'n cael eu hadrodd, gan fod rhai staff yn treulio 50% o'u hamser yn cyflawni rolau gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu 5% er 2018/19, yn bennaf oherwydd dyfarniadau a chynyddrannau cyflog staff. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n uwch na'r canolrif. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi aros yr un fath, ac

maent yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Nid oes dim wedi amharu ar y gwasanaeth sefydlog na'r gwasanaeth danfon i gartrefi.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae'r gwasanaeth wedi darparu naratif cynhwysfawr ar ei gyfraniad yn y maes hwn. Y blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yw: iechyd; cyflogadwyedd; cynhwysiant digidol; llythrennedd; yr iaith Gymraeg a gwytnwch cymunedol. Mae iechyd a llesiant yn un o gryfderau'r Gwasanaeth, a nodir bod partneriaethau strategol â nifer o sefydliadau'n sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu'n dda tuag at nifer o flaenoriaethau strategol yn y maes hwn, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Sir Ddinbych yn nodi heriau ailgyflwyno gwasanaethau yn ystod pandemig Covid-19, yn enwedig gweithgareddau grŵp a sesiynau hyfforddi. Mae Sir Ddinbych yn parhau'n ymroddedig i'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych 2019-22, sef darllen; iechyd a llesiant; gwasanaethau digidol a diwylliant. Mae effaith y pandemig yn golygu y bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio nawr ar ddatblygu'r ddarpariaeth iechyd a llesiant ymhellach; datblygu gwefan llyfrgell newydd, gwella darpariaeth ddigidol y gwasanaeth, datblygiad proffesiynol staff a sicrhau bod adeiladau'n ddiogel wrth i lyfrgelloedd ailagor yn raddol. Bydd gwytnwch digidol yn flaenoriaeth allweddol i bob gwasanaeth yng Nghymru yn y dyfodol agos.

6 Casgliad

Gweledigaeth Sir Ddinbych yw sicrhau bod "llyfrgelloedd yn ganolog i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu – mannau niwtral, dibynadwy lle mae croeso i bawb beth bynnag fo'u hoedran, eu cefndir neu eu hamgylchiadau ariannol". Ar y cyfan mae Sir Ddinbych wedi cynnal ei berfformiad drwy gydol y chweched fframwaith ac mae ganddo ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant. Er y bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y defnyddwyr, gellir gweld yn glir bwysigrwydd cynyddol yr adnoddau digidol a gynigir gan Sir Ddinbych. At ei gilydd mae lefelau staffio wedi cael eu cynnal, er bod y gwasanaeth yn nodi y bydd pwysau parhaus ar y gyllideb yn effeithio ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Dylai datblygu'r strategaeth wirfoddoli a lanswyd yn 2019 barhau i gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y gwasanaeth. Mae'n debygol y bydd rhagor o bwysau ar y gyllideb yn y dyfodol agos, ond dylai'r bwriad i ganolbwyntio ar ddatblygu staff alluogi llyfrgelloedd Sir Ddinbych i barhau i fod wrth wraidd eu cymunedau a pharhau i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.